



At: Penaethiaid Cynllunio

23/10/19

Annwyl Gyfeillion,

### **Sicrhau Bioamrywiaeth Gwell**

Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn pennu bod *"yn rhaid i awdurdodau cynllunio gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer eu swyddogaethau. Golyga hyn na ddylai datblygiadau achosi unrhyw goll cynefinoedd neu boblogaethau sylweddol o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol ac mae'n rhaid sicrhau manteision net ar gyfer bioamrywiaeth"* (para 6.4.5). Mae'r polisi hwn a pholisïau dilynol ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru 10 yn ymateb i Adran 6 Deddf Dyletswydd yr Amgylchedd (Cymru) 2016\*.

Pwrpas y llythyr hwn yw egluro, yn dilyn y ddeddfwriaeth a pholisi Llywodraeth Cymru sydd wedi'i hamlinellu uchod, ble na fydd gwella bioamrywiaeth yn cael ei gynnis fel rhan o gais, byddwn yn rhoi pwyslais sylweddol ar y ffaith nad yw'n bresennol, ac os nad oes ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall, bydd angen gwrthod y caniatâd.

Mae'n bwysig ystyried bioamrywiaeth a thirwedd yn gynnar wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth gynnis neu ystyried cynigion datblygu. Dylai awdurdodau fod yn broactif a chynnwys polisïau priodol o fewn cynlluniau datblygu lleol i warchod yn erbyn colli bioamrywiaeth a sicrhau gwelliant.

Dylid defnyddio cadernid yr ecosystem (Polisi Cynllunio Cymru paragraff 6.4.9) i asesu cadernid presennol safle, ac mae'n rhaid cynnal hyn a'i wella wedi'r datblygiad. Os na ellir cyflawni hyn, dylid gwrthod yr hawl ar gyfer y datblygiad.


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Welsh Government Offices  
Cathays Park  
Cardiff  
CF10 3NQ

Mae sicrhau mantais net ar gyfer bioamrywiaeth o fewn cyd-destun Polisi Cynllunio Cymru yn galw am ymateb pragmatig i amgylchiadau penodol y safle. Trwy ddefnyddio y dull fesul cam (Polisi Cynllunio Cymru paragraff 6.4.21), os na ellir osgoi colli bioamrywiaeth yn gyfan-gwbl (h.y. ei gynnal), a bod cyn lleied â phosibl yn cael ei golli, mae'n ddefnyddiol ystyried manteision net fel egwyddor i wneud yn iawn am y colli ac i chwilio am gyfleoedd ar gyfer gwella, a'u sicrhau. Gellir sicrhau mantais net ar gyfer bioamrywiaeth trwy greu cynefinoedd ac/neu drefniadau rheoli hirdymor i wella cynefinoedd presennol, i wella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau. Nid yw sicrhau mantais net ar gyfer bioamrywiaeth yn feichus o angenrheidrwydd; trwy ddeall cyd-destun lleol, mae'n bosibl nodi cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth.

Yn gywir,



**Neil Hemington**  
**Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**  
**Chief Planner, Planning Directorate**

**\*Adran 6 – Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau**

Cyflwynodd Adran 6, Rhan 1, o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd ehangach ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd A6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru.

*6. Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau*

*(Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau yng Nghymru ac wrth wneud, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.*